**Gwybodaeth i Gleifion**

# Beth yw Sylw yn ôl Symptomau neu SOS?

**Obstetreg a Gynaecoleg**

---

## Beth yw Sylw yn ôl Symptomau neu SOS?

Mae Sylw yn ôl Symptomau neu SOS yn ffordd o roi rheolaeth i chi. Mae'n rhoi mynediad uniongyrchol i chi at arweiniad pan fydd ei angen fwyaf arnoch chi.

Mae ymchwil wedi dangos nad oes angen gofal dilynol rheolaidd ar lawer o gleifion ar ôl i gynllun gofal gael ei roi ar waith. Fodd bynnag, gall rhai pobl brofi gorbryder pan fydd cyswllt rheolaidd yn dod i ben.

Mae'r SOS ar gyfer y gwasanaeth Gynaecoleg yn cynnig cyfnod o chwe mis o fynediad agored i'r gwasanaeth yn seiliedig ar y gwyn y bu i chi ei chyflwyno yn y lle cyntaf. Ar ôl eich SOS chwe mis byddwch yn cael eich rhyddhau o'r gwasanaeth. Bydd y daflen hon yn eich helpu i benderfynu pryd y dylech gysylltu â ni.

Mae'r mynediad chwe mis yn dod i ben chwe mis o apwyntiad heddiw.

Ar ôl chwe mis bydd angen i chi gysylltu â'ch meddyg teulu i gael eich atgyfeirio'n ôl at y gwasanaeth Gynaecoleg os byddwch yn profi unrhyw broblemau neu symptomau sy'n ymwneud â chyflwr arall.

## Sut mae trefnu apwyntiad 'Sylw yn ôl Symptomau'?

Mae'r gwasanaeth yn gyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio. Yr oll sydd angen i chi ei wneud yw e-bostio: - ABB.GynaeBookingTeam@wales.nhs.uk neu ffonio 01633 234400 a byddwch yn cael eich rhoi ar restr aros gofal dilynol ar gyfer apwyntiad pellach gyda'r gwasanaeth. Bydd y Tîm Trefnu Apwyntiadau yn cysylltu â chi pan ddaw apwyntiad ar gael. Sylwer na all y Tîm Trefnu Apwyntiadau roi unrhyw gyngor clinigol.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**